



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

FFRAMWAITH AR GYFER RHEOLI BRIGIAD O ACHOSION NEU ACHOS LLUOSOG O HAINT MEWN SAFLEOEDD GOFAL IECHYD ACÍWT YNG NGHYMRU F2

1 Cyflwyniad

Mae brigiadau o achosion ac achosion lluosog o heintiau yn arwain at ganlyniadau difrifol i ddefnyddwyr gwasanaethau a sefydliadau'r GIG gan gynnwys marwolaethau, morbidrwydd, trallod, oedi mewn triniaeth ac effeithiau ar ddarpariaeth gwasanaethau. Bydd gan bob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth yng Nghymru bolisiau lleol o ran trefnu sut i reoli brigiadau o achosion neu achos lluosog o heintiau yn eu lleoliadau gofal iechyd. Rhaid i bolisi brigiadau o achosion y Bwrdd Iechyd adlewyrchu'r egwyddorion a'r canllawiau sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen fframwaith hon. Yn ogystal, bydd gan rai sefydliadau bolisiau a phrotocolau gweithredol ar wahân ar gyfer rheoli brigiadau o achosion o organebau penodol e.e., gastro-enteritis feirysol tybiedig neu wedi'i gadarnhau, haint anadlol aciwt e.e., fflw neu COVID-19, Enterobacterales sy'n Cynhyrchu Carbapenemase (CPE) ac Organebau ag Ymwrthedd Gwrthficrobaidd sy'n Arwyddocaol yn Glinigol (CSARO).

2 Cwmpas

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i frigiadau neu achosion o heintiau sy'n digwydd yn y lleoedd canlynol:

1. Pob safle Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG lle darperir gwasanaethau GIG.

- Pob safle lle darperir gwasanaethau GIG trwy drefniadau cytundebol gyda Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru.

- Safleoedd eraill, mewn sefyllfaoedd lle mae achosion neu frigiadau o achosion o heintiau yn codi'n uniongyrchol gan staff y Bwrdd Iechyd neu'r Ymddiriedolaeth sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd mewn lleoliadau cyn ysbyty a'r tu allan i'r ysbyty, fel anheddau preifat, cartrefi gofal ac mewn lleoliadau cyhoeddus.

Os oes brigiad o achosion o glefyd heintus yn y lleoliadau uchod a'i fod yn peri goblygiadau i'r gymuned ehangach, neu os nodir ei fod yn cael ei gludo gan fwyd

Fframwaith ar gyfer rheoli brigiadau neu achosion o heintiau mewn safleoedd gofal iechyd aciwt yng Nghymru F2 – Chwefror 2024.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

neu ddŵr, caiff ei reoli gan ddefnyddio'r "Cynllun ar gyfer Brigiadau o Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy yng Nghymru ('Cynllun Brigiadau o Achosion Cymru')."

3 Cyfathrebu arferol rhwng y Tîm Atal a Rheoli Heintiau (IPCT) a'r Tîm Diogelu Iechyd (HPT) / Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy / Ymgynghorydd Diogelu Iechyd (CCDC/CHP)

Mae disgwyl y bydd IPCT y Bwrdd Iechyd / Ymddiriedolaeth wedi sefydlu cydberthnasoedd cadarn gyda'u HPT/CCDC/CHP lleol. Bydd cydberthnasoedd o'r fath yn cynnwys cyswllt rheolaidd a rhannu gwybodaeth am achosion, clystyrau a brigiadau o achosion neu achos lluosog posibl o heintiau. Bydd aelod o'r HPT yn aelod o Grŵp neu bwyllgor 'Strategol' Atal a Rheoli Heintiau'r Bwrdd Iechyd neu'r Ymddiriedolaeth.

4 Diffiniad o Frigiad neu Achosion mewn lleoliad gofal iechyd

Gellir diffinio brigiad o achosion o haint fel y canlynol:

1. cynnydd mewn achosion o gymharu â lefelau cefndir arferol organeb/clefyd **neu**
2. tybir bod organeb/clefyd wedi'i drosglwyddo yn y lleoliad gofal iechyd.

neu

3. mae dau achos neu fwy yn gysylltiedig o ran amser, lle, ac unigolyn o fewn y lleoliad gofal iechyd.

Gall un neu fwy o'r uchod fod yn berthnasol.

Pan fo lefel gefndir organeb/clefyd ar gyfer y cyfleuster neu'r sefydliad fel arfer yn sero, neu pan fo canlyniadau posibl difrifol ar gyfer iechyd y cyhoedd neu wasanaethau lleol yn perthyn i un achos, e.e. organeb CSARO fel CPE, neu TB ag ymwrthedd i'r prif gyffuriau (MDR), *Candida auris*, gall un achos gael ei ystyried yn frigiad o achosion a ffurfir Tîm Rheoli Brigiad (OCT) (efallai y bydd yn cael ei alw'n achos o dan yr amgylchiadau hyn). Yn ogystal, efallai y bydd gan Fyrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau

Fframwaith ar gyfer rheoli brigiadau neu achosion o heintiau mewn safleoedd gofal iechyd aciwt yng Nghymru F2 – Chwefror 2024.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

ddiffiniadau lleol sy'n ddibynnol ar organeb/clefyd ar gyfer cyfnodau o achosion cynyddol (PII) a fydd yn sbarduno ymchwiliad.

5 Adnabod Brigiad neu Achosion

Gellir adnabod brigiad neu achosion drwy nifer o lwybrau yn dibynnu ar ei natur a sut y bydd yn ymglywyo e.e.

1. Gall staff ward hysbysu'r IPCT am frigiad o achosion o gastro-enteritis feirysol tybiedig neu symptomau penodol eraill mewn cleifion neu staff sy'n gysylltiedig â haint benodol e.e., *C. difficile*, COVID-19, y fflw neu heintiau feirysol anadlol eraill, haint llif gwaed sy'n gysylltiedig â thiwb mewn gwythïen fawr (CLABSI), sepsis, y clefyd crafu.
2. Gall staff labordy dynnu sylw at frigiad o organeb sy'n dangos ymwrthedd gwrthficrobaidd penodol neu ddilyniant genom cyfan,
3. Efallai y bydd yr IPCT yn sylwi ar gysylltiadau rhwng cleifion ag organebau 'rhybudd' neu efallai y bydd epidemiolegwyr gofal iechyd yn nodi cynnydd mewn achosion drwy arolygu arferol o fewn y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth neu drwy'r Ganolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy yn ICC.
4. Gallai rhybudd cenedlaethol am gynnyrch neu ddyfais feddygol arwain at ganfod achos fel y digwyddodd e.e., dyfeisiau oeri a gwresogi cardiaidd a gel uwchsain.
5. Gallai rhybudd cenedlaethol am haint sylweddol ysgogi cynnydd yn nifer yr achosion sy'n cael eu canfod neu achosion sy'n gysylltiedig â brigiad o achosion y tu allan i'r Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth e.e., y frech goch, brech y mwncïod.

Gall brigiad o achosion ddod i'r amlwg naill ai'n gysylltiedig ag un 'tarddle penodol' e.e., darn o offer neu fwyd wedi'i halogi neu ddod i gysylltiad ag achos heintiedig, neu fel patrwm o drosglwyddo parhaus. Os yw'r brigiad o achosion neu'r achos lluosog yn ymwneud ag amheuaeth o glefyd neu organeb hysbysadwy, neu achos wedi'i gadarnhau o un o'r rhain (Rheoliadau Diogelu Iechyd (Hysbysiad) (Cymru) 2010 (legislation.gov.uk), rhaid i'r meddyg sy'n trin neu'r labordy hysbysu'r CCDC/CHP fel 'Swyddog Priodol' yr Awdurdod Lleol (Ffôn: 0300 00 300 32 a/neu e-bost aware@wales.nhs.uk).



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Yn ystod cyfnod o achosion cynyddol o glefyd yn lleol neu'n genedlaethol e.e. y fflwi, y frech goch neu norofeirws, dylid rhoi gwybod i'r holl staff clinigol bod angen bod yn fwy ymwybodol o symptomau'r haint a bod yn fwy amheugar gan gymryd camau prydlon i roi gwybod am eu pryderon er mwyn lleihau trosglwyddiadau. Dylai statws brechu staff ar gyfer clefydau y gellir eu hatal â brechlyn fod yn gam amddiffyn cyntaf.

6 Datgan Brigiad o Achosion neu Achos Lluosog

Ar ôl cael gwybod am gynnydd ymddangosiadol mewn achosion neu arwyddion eraill o frigiad neu achosion posibl, bydd yr IPCT yn asesu'r sefyllfa ac yn dod i un o'r casgliadau hyn (atodiad 2):

1. Dim brigiad o achosion neu achos lluosog o haint.
2. Brigiad o achosion neu achos lluosog y gellir eu rheoli gan yr IPCT a chydweithwyr eraill yn y sefydliad heb fod angen OCT ffurfiol (gall hyn gynnwys PII yn unol â diffiniadau lleol).
3. Brigiad o achosion neu achos lluosog sy'n gofyn am OCT ffurfiol neu Dîm Rheoli Achos Lluosog (IMT).
4. Brigiad o achosion neu achos lluosog mawr gwirioneddol neu bosibl sydd â goblygiadau sylweddol i iechyd y cyhoedd, gwasanaethau lleol neu genedlaethol, ac sy'n gofyn am OCT mawr ffurfiol YN OGYSTAL Â thrafodaeth ar unwaith gyda HPT/CCDC/CHP (Ffôn: 0300 00 300 32; a/neu e-bost aware@cymru.nhs.uk) i ystyried rhoi 'Cynllun Brigiadau o Achosion Cymru' ar waith.

Mae'r pethau canlynol yn allweddol o ran rheoli brigiadau o achosion ar lefel glinigol er mwyn atal rhagor o drosglwyddiadau: brysennu neu gynnal asesiad prydlon o achosion/achosion a amheuir, samplu, ynysu gyda rheolaethau Atal a Rheoli Heintiau yn unol â NIPCM - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru) SICP/TBP. Os amheuir bod tarddiad y brigiad o achosion/achos lluosog yn dod o gynnyrch neu ddyfais feddygol, neu os yw hynny'n bendant, bydd y cynnyrch yn cael ei roi mewn cwarantin a/neu'r ddyfais yn cael ei symud o'r lleoliad er mwyn atal rhagor o drosglwyddiadau.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Nid yw'n bosibl bod yn rhagnodol ynghylch beth sy'n gyfystyr â'r angen am OCT / IMT ffurfiol, gan fod amrywiaeth fawr yn y senarios posibl, a bydd ffactorau lleol yn effeithio arnynt, gan gynnwys yr amgylchedd ffisegol ac adnoddau'r sefydliad/IPCT, y llwybr trosglwyddo tebygol, pathogenedd a ffyrnigrwydd y lledaeniad a'r effaith debygol ar gleifion mewn perthynas â marwolaethau, morbidrwydd, a darparu gofal (atodiad 2)/

Os bydd y penderfyniad ar ôl ymchwiliad cychwynnol yn datgan

1. nad oes 'unrhyw' frigiad o achosion/achos lluosog/PII, **NEU**
2. bod brigiad o achosion/achos lluosog/PII y gellir ei reoli gydag OCT ffurfiol.

Dylid rhoi gwybod am y penderfyniad hwn i Arweinydd Gweithredol (IPC) y sefydliad a rheolwyr lleol, yr ICD/Microbiolegydd Ymgynghorol a CCDC/CHP. Yn dilyn hyn, bydd yr IPCT yn sicrhau bod y penderfyniad yn amodol ar

Wyliadwraeth/adolygu dyddiol o wybodaeth newydd neu wybodaeth sy'n dod i'r amlwg (atodiad 6) – dylid cadw cofnodion cywir o unrhyw benderfyniadau a wneir a phwy a'u gwnaeth, y camau gweithredu a'r ymyriadau a gymerwyd. Dylai'r IPCT gynnal trothwy isel ar gyfer datgan OCT / IMT ffurfiol yn enwedig yn ystod pandemig neu gynnydd cenedlaethol/lleol mewn afiechyd.

7 Tîm Rheoli Brigiad (OCT) / Tîm Rheoli Achos Lluosog (IMT)

IPCS y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth fydd fel arfer yn cymryd rôl arweiniol o ran rheoli brigiad o achosion. Bydd y trefniant hwn ac unrhyw newidiadau i hyn yn cael eu cytuno a'u cofnodi mewn cyfarfodydd OCT / IMT (atodiad 3)

8 Aelodaeth Graidd

Fframwaith ar gyfer rheoli brigiadau neu achosion o heintiau mewn safleoedd gofal iechyd aciwt yng Nghymru F2 – Chwefror 2024.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Gall unrhyw uwch aelod o'r OCT fod yn Gadeirydd a bydd yn sicrhau bod yr holl aelodau angenrheidiol yn cael eu gwahodd, bod y cyfarfodydd yn digwydd yn ôl yr angen a'r lleoliad yn cael ei drefnu, bod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn unol â'r agenda (atodiad 1), bod cofnodion yn cael eu cofnodi, bod camau gweithredu yn cael eu cofnodi mewn log gydag amserlenni y cytunwyd arnynt a bod y rhain yn cael eu hadolygu, a bod yr holl drafodion yn cael eu cofnodi a'u cyfleu i'r aelodaeth. Dylai aelodaeth gynnwys:

1. IPCT (yn cynnwys ICD ac IPCN)
2. Microbiolegydd ymgynghorol (os nad yw'n ICD) – (wedi'i gyflogi gan ICC neu'r Bwrdd Iechyd)
3. CCDC/CHP (i asesu risgiau ehangach i iechyd y cyhoedd ac, os oes angen, rhoi'r Cynllun ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy yng Nghymru ar waith; hwyluso cydweithrediad rhwng asiantaethau; darparu mewnbwn epidemiolegol arbenigol wrth ymchwilio a rheoli brigiad o achosion; darparu safbwynt 'allanol' annibynnol i'r OCT ac mewn rhai amgylchiadau, ddefnyddio eu pwerau statudol).
4. Cynrychiolwyr proffesiynol uwch (meddygol, nyrsio ac adrannol) o'r ardal(ardaloedd) yr effeithir arnynt. Mae'n bwysig bod arweinydd clinigol y claf yn cael ei gynrychioli.
5. Epidemiolegydd gofal iechyd (swyddi Bwrdd Iechyd ac ICC ar y cyd)
6. Cefnogaeth weinyddol
7. Cynrychiolydd cyfathrebu
8. Iechyd galwedigaethol pan fo staff yn cael eu heffeithio.
9. Cynrychiolydd rheolwyr gyda'r statws/awdurdod i gyfyngu ar wasanaethau ac awdurdodi bod adnoddau'n cael eu rhyddhau/ailbennu yn ôl yr angen.

Gellir cyfethol cynrychiolwyr o'r adrannau/grwpiau proffesiynol eraill yn dibynnu ar natur y brigiad o achosion/achos lluosog e.e., glanhau/cynnal, peirianeg/ystadau, gwasanaethau di-haint, iechyd galwedigaethol, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, epidemiolegwyr, gwyddonwyr biofeddygol, Ansawdd a Diogelwch, Iechyd a Diogelwch (nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr).

Fframwaith ar gyfer rheoli brigiadau neu achosion o heintiau mewn safleoedd gofal iechyd aciwt yng Nghymru F2 – Chwefror 2024.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Gellir gwahodd cynrychiolwyr o asiantaethau allanol yn dibynnu ar natur y brigiad o achosion/achos lluosog e.e., tîm HARP Iechyd Cyhoeddus Cymru, rhanddeiliaid comisiynwyr, Llais, awdurdod lleol, ochr y staff.

Dylai OCT/IMT mawr gynnwys y canlynol hefyd:

1. Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd / Ymddiriedolaeth neu ddirprwy enwebedig.
2. Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth, sydd â chyfrifoldebau penodol a amlinellir yn y Cynllun ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy yng Nghymru.
3. Mewnbwn ychwanegol ICC – arweinydd IPC arbenigol (Nyrs Ymgynghorol/Pennaeth Nyrsio neu Ficrobiolegydd rhaglen HARP / ICD ac Arweinydd Gwrthficrobaidd rhaglen HARP (os yw'n briodol); CDSC - cymorth epidemiolegol.
4. Cynrychiolwyr o asiantaethau eraill yn ôl yr angen gan gynnwys Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru (NWSSP) awdurdod lleol (nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysfawr)

9 Swyddogaethau craidd (cylich gorchwyl craidd)

1. Ymchwilio i darddiad ac achos y brigiad o achosion/achos lluosog.
2. Asesu'r holl lwybr(au) trosglwyddo posibl
3. Datblygu, adolygu a diweddarau'r diffiniad achos ar gyfer y brigiad o achosion/achos lluosog ym mhob cyfarfod yn unol â gwybodaeth a thystiolaeth newydd.
4. Cadw cofnod cywir o achosion, mesurau rheoli, camau gweithredu ac ymyriadau.
5. Monitro effeithiolrwydd mesurau atal a rheoli heintiau ac ymyriadau eraill sy'n ofynnol yn erbyn hierarchaeth rheolaethau (atodiad 5).

Fframwaith ar gyfer rheoli brigiadau neu achosion o heintiau mewn safleoedd gofal iechyd aciwt yng Nghymru F2 – Chwefror 2024.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

6. Adolygu a monitro effeithiolrwydd mesurau rheoli stiwardiaeth gwrthficrobaidd.
7. Monitro darpariaeth yr hyfforddiant IPC gofynnol i ofalu am gleifion yn ddiogel.
8. Hwyluso'r gofal clinigol neu'r llwybr gorau posibl i gleifion.
9. Monitro'r effaith ar iechyd a diogelwch y claf a'r staff gan gynnwys morbidrwydd a marwolaethau.
10. Adolygu tystiolaeth o'r brigiad o achosion / achos lluosog a chanlyniadau ymchwiliadau epidemiolegol a microbiolegol gan gynnwys dilyniannu genom cyfan (WGS) neu deipio, casglu a dadansoddi data ar gleifion a staff cysylltiedig yn yr ardal yr effeithir arni.
11. Penderfynu ar yr angen am gymorth ac arbenigedd allanol.
12. Hwyluso'r cyfathrebu allanol rhwng asiantaethau perthnasol a'r rhai sydd â diddordeb dilyn yn y brigiad o achosion, gan gynnwys cleifion a'u teuluoedd, WAST, gofal sylfaenol, Llywodraeth Cymru, ICC, Byrddau Iechyd eraill, sefydliad y GIG mewn gwlad arall yn y DU a'r cyhoedd yn gyffredinol os oes angen.
13. Sicrhau bod adrodd ar lefel genedlaethol i Weithrediaeth y GIG, yn unol â'r polisi Rhoi Gwybod am Ddigwyddedd Cenedlaethol, yn cael ei gyflawni. Efallai y bydd hyn yn gofyn am gysylltu â chydweithwyr Ansawdd a Diogelwch.
14. Hwyluso cyfathrebu mewnol o fewn y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth rhwng timau/adrannau perthnasol sydd â diddordeb dilyn yn y brigiad o achosion
15. Darparu canllawiau clir cyfredol i gleifion, perthnasau, staff a'r cyhoedd.
16. Hwyluso ymweliadau diogel gan deulu/perthnasau sy'n ymweld â chleifion yr effeithir arnynt
17. Adolygu a diweddarau cyfathrebiadau ym mhob cyfarfod yn ôl yr angen at ddefnydd mewnol ac allanol.
18. Sicrhau bod yr unigolion hynny sydd â chyfrifoldebau penodedig o fewn y polisi brigiad o achosion yn cyflawni eu rolau.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

19. Nodi a chefnogi unrhyw adnoddau ychwanegol sydd eu hangen a'u costau posibl.
20. Diffinio diwedd y brigiad o achosion.
21. Datblygu rhestr etifeddol o gamau gweithredu (os o gwbl) gydag amserlenni wedi'u nodi ar gyfer cyflawni, gyda monitro parhaus yn ei le.
22. Gwerthuso'r gwersi a ddysgwyd a mynd i'r afael â gwraidd unrhyw broblem.
23. Paratoi adroddiad terfynol, amserol am y brigiad o achosion gydag argymhellion ar gyfer y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth a Llywodraeth Cymru, y gellir ei ddefnyddio hefyd fel rhan o adolygiad allanol neu gyfreithiol pellach (atodiad 4)

10 Gwyliadwraeth o Frigiadau o Achosion

Dylai Byrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau fonitro'r niferoedd a'r mathau o frigiadau o achosion yn ôl lleoliad dros amser. Mae disgwyl y bydd pob Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth yn cymryd rhan yn system wyliadwraeth ICC o frigiadau o achosion, drwy gofnodi pob brigiad o achosion neu achos lluosog yn ICNet. Efallai y bydd angen cyfrannu at waith gwyliadwraeth mwy manwl yn y DU os yw'r brigiad o achosion yn gysylltiedig â digwyddiad cenedlaethol/rhyngwladol.

11 Safonau ar gyfer Ymchwilio i Frigiad o Achosion a Rheoli

Cydnabod y Brigiad o Achosion	Cwblhau o fewn 24 awr i gydnabod neu nodi brigiad posibl o achosion neu PII, egluro natur y brigiad o achosion, pryd y dechreuodd, pwy sy'n cael ei effeithio ac unrhyw effaith ar weithrediaeth.
	ar ôl derbyn gwybodaeth gychwynnol, cynnal a chofnodi asesiad risg ar unwaith, i gynnwys penderfyniadau a chamau gweithredu sydd angen eu cwblhau ar unwaith



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Datgan Brigiad o Achosion	Cofnodi penderfyniad a datganiad yr ymchwiliad cychwynnol i frigiad o achosion/achos lluosog yn dilyn ymchwiliad cychwynnol. Cynnull tîm rheoli brigiad i gyfathrebu'r sefyllfa gyda phersonél allweddol (atodiad 2)
	Rhoi gwybod am yr achos lluosog ar datix ar y cyfle cyntaf.
Tîm Rheoli Brigiad (OCT)	OCT yn cael ei gynnal o fewn 48 awr o'r penderfyniad i gynnull
	OCT i gynnwys cynrychiolaeth o bob adran/disgyblaeth sy'n ymwneud â'r ymchwiliad cychwynnol ac yn gyfrifol am ofal y claf/unigolyn (atodiad 1 ac atodiad 3)
	Cytuno ar gadeirydd a/neu'r dirprwy, a chofnodi
	Cytuno ar rolau a chyfrifoldebau aelodau'r OCT, a chofnodi

Ymchwilio i'r Brigiad o Achosion	Cytuno ar ddiffiniad achos, ei gofnodi, a'i adolygu ym mhob cyfarfod ac wrth i ragor o wybodaeth ddod i'r amlwg.
	Cynnal llinell amser i gofnodi achosion posibl, tebygol a rhai wedi'u cadarnhau (yn ôl yr angen) a microbioleg gysylltiedig (gan gynnwys WGS/teipio)
	Disgrifio'r achosion (cleifion/staff/ymwelwyr) – amser, lleoliad, unigolyn (o nodiadau, siartiau, hanes derbyn i leoliad gofal) gan gynnwys achosion newydd, wedi gwella, rhyddhau.
	Pob claf i gael ymchwiliad cymesur yn unol â chanllawiau Gweithio i Wella. Bydd hyn yn cynnwys morbidrwydd a marwolaethau cysylltiedig achosion, difrifoldeb ac unrhyw ddirywiad mewn niwed neu ansawdd gofal a allai sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd neu'r gofyniad i Gofnodi Digwyddiad yn ôl Polisi Cenedlaethol. Y Ddyletswydd Ansawdd mewn



	gofal iechyd LLYW.CYMRU Dyfetswydd Gonestrwydd y GIG LLYW.CYMRU
	Rhaid cyflwyno'r data diweddaraf ymhob cyfarfod e.e., cromlin epidemig, llinell amser, plot trosglwyddo, map wardiau, siartiau TICL. Anodi siartiau gyda gwybodaeth allweddol fel nad oes unrhyw amwysedd o ran amser, lle, unigolyn. (atodiad 6)
	Y tîm IPC i ddefnyddio ICNet i reoli achosion, ochr yn ochr â modiwl rheoli brigiad o achosion
	Nodi a fu unrhyw newid yn y system a allai fod wedi arwain at y brigiad o achosion (newidiadau mewn pobl, offer, gweithdrefnau, yr amgylchedd/hinsawdd, rhybudd cenedlaethol)
	Ystyried gwneud astudiaeth ddadansoddol a chofnodi'r rhesymeg dros y penderfyniad a wneir
	Paratoi protocol ymchwilio os cynhelir astudiaeth ddadansoddol
	Cynnwys arbenigwyr proffesiynol wrth ymchwilio i fethiant dyfeisiau meddygol neu offer clinigol e.e., SMTL, MHRA, gweithgynhyrchu
	Datblygu, gyda phroses glir o fonitro allbynnau, restr etifeddol o gamau gweithredu neu newid gofynion ar gyfer adnoddau, hyfforddiant, ystadau, offer etc
Mesurau Rheoli Brigiad o Achosion	Dogfennu'r holl fesurau rheoli sy'n cynnwys amserlenni clir ar gyfer gweithredu a chyfrifoldebau; y rhain i'w monitro a'u hadolygu ym mhob cyfarfod
	Adolygu Archwiliadau/dadansoddiad thematig a'u canlyniadau sy'n briodol i'r brigiad o achosion/achos lluosog) ymhob cyfarfod
	Gofyniad i sgrinio cleifion a staff yn amserol a bod samplau'n cael eu hadolygu a'u dogfennu a bod camau gweithredu yn dilyn, os yn berthnasol.
	Gofyniad i asesu risg staff agored iawn i niwed neu sydd â risg uwch.



GIG
CYMRU

Iechyd Cyhoeddus
Cymru

NHS
Wales
Public Health
Wales

	Adolygu a dogfennu penderfyniad (lle bo'n berthnasol) ar gyfer gofyniad i gael proffylaccsis neu imiwneiddio cleifion/staff, i gynnwys cynllun gweithredu a chyflawni.
	Gofyniad i roi cleifion a staff mewn carfanau.
	Gofyniad am reolaeth amgylcheddol ychwanegol a chynnwys y tîm ystadau e.e., awyru, dŵr, ynysu, atgyweirio/addurno.
Effaith ar Wasanaeth (Risg i enw da)	Monitro effaith y brigiad o achosion ar wasanaethau Bwrdd Iechyd / Ymddiriedolaeth Cyfranogiad y cyfryngau a risg i enw da.
	Monitro effaith y brigiad o achosion ar bartneriaid y GIG e.e. WAST, y sector annibynnol, gofal sylfaenol, gofal cymdeithasol gan gynnwys cartrefi gofal
	Cofnodi penderfyniadau/rhesymeg yn gywir dros agor/cau ardaloedd yr effeithiwyd arnynt neu ran o'r ardaloedd hynny ac o ran symud staff rhwng ardaloedd yr effeithiwyd arnynt a'r ardaloedd sydd heb eu heffeithio yn ystod y brigiad o achosion. Cofnodi pwy sydd ag awdurdod i wneud y penderfyniadau hynny y tu allan i gyfarfodydd brigiad o achosion, yn ystod a thu allan i oriau gwaith.
Cyfathrebu	Cytuno ar strategaeth Gyfathrebu yng nghyfarfod cyntaf yr OCT, gan gynnwys cyfathrebu â chleifion a pherthnasau (yn unol â'r Agenda Gweithio i Wella a'r Ddyletswydd Gonestrwydd), staff adrannau perthnasol a Byrddau Iechyd / Ymddiriedolaethau eraill neu wasanaethau a rhanddeiliaid yr effeithir arnynt, y cyfryngau.
Adrodd Allanol	Ar adeg cydnabod brigiad o achosion, dylai'r IPCT gysylltu â'u HPT/CCDC/CHP lleol i'w hysbysu fel y gellir rhoi cymorth a chyngor priodol yn eu lle os oes angen.
	Os yw'r brigiad o achosion neu'r achos lluosog yn ymwneud ag amheuaeth o glefyd neu organeb y dylid hysbysu amdano, neu gadarnhad o un o'r rhain (gweler Rhan 6.11), rhaid i'r meddyg sy'n trin neu'r



	labordy roi gwybodaeth i'r CDC/CHP fel Swyddog Priodol' yr Awdurdod Lleol (Ffôn: 0300 00 300 32 a/neu e-bost aware@wales.nhs.uk).
	Sicrhau bod y brigiad o achosion yn cael ei adrodd ar Datix Cymru cyn gynted â phosibl a bod ffurflen hysbysu NRI yn cael ei hanfon o fewn 7 diwrnod at Weithrediaeth GIG Cymru. Unwaith y bydd y broses ymchwilio wedi'i chwblhau, bydd angen anfon ffurflen Canlyniadau NRI hefyd, gan gynnwys camau dysgu a chamau ataliol ar gyfer y dyfodol, at Weithrediaeth GIG Cymru. Bydd timau Ansawdd a Diogelwch Sefydliadol yn gallu rhoi cyngor a chymorth ar hyn lle bo angen.
	Os yw'r brigiad o achosion yn debygol o arwain at sylw yn y cyfryngau, tarfu sylweddol ar wasanaethau neu ddigwyddiadau o ran parhad busnes, efallai y bydd angen Hysbysiad Rhybudd Cynnar (EWN) i Lywodraeth Cymru hefyd. Mae'r broses EWN yn annibynnol ar y broses NRI a phan fo angen EWN hefyd, rhaid dilyn y ddwy broses. Bydd timau Ansawdd a Diogelwch Sefydliadol a Chyfathrebu yn gallu rhoi cyngor a chymorth ar hyn lle bo angen.
Diwedd y Brigiad o Achosion	Adroddiad terfynol ar y brigiad o achosion (atodiad 4) wedi'i gwblhau o fewn 4 wythnos i gau'r brigiad o achosion yn ffurfiol, oni bai bod achos cyfreithiol yn ei ohirio neu'n mynnu hynny (e.e., Crwner)
	Mae angen adolygiad amlddisgyblaethol Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth o wraidd y broblem, gwersi a ddysgwyd ac adrodd ar argymhellion i atal hyn rhag digwydd eto a chamau gweithredu pellach (gan gynnwys rhestr etifeddol) ac mae angen amcangyfrif o'r costau o fewn 3 mis i gau'r brigiad o achosion yn ffurfiol.
	Bydd yr OCT yn archwilio eu hymateb i'r brigiad o achosion/achos lluosog gan ddefnyddio'r canllawiau hyn



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Cyflwyno adroddiad ymchwilio gan gynnwys canlyniadau a rennir a'r hyn a ddysgwyd, ar ffurflen canlyniad ymchwilio Gweithrediaeth y GIG.

NationalSIreports@wales.nhs.uk



Cyfeiriadau/Llyfryddiaeth

1. Ymrwymiad i'r Pwrrpas: Dileu heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hatal; Fframwaith o gamau gweithredu i gyrff gofal iechyd yng Nghymru (2011)
Llywodraeth Cymru. (ar gael yn <http://wales.gov.uk/docs/dhss/publications/111216commithcaien.pdf>)
wales.gov.uk/docs/dhss/publications/111216commithcaicy.pdf
2. Cod ymarfer ar gyfer atal a rheoli heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Cyhoeddwyd Mai 2014. (Ar gael yn: <https://gweddi.gov.wales/docs/phhs/publications/140618appenindex.pdf>
<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/cod-ymarfer-ar-gyfer-atal-a-rheoli-heintiau-syn-gysylltiedig-a-gofal-iechyd.pdf>
3. Llythyr DCMO 8 Rhagfyr 2014. Gofynion ar gyfer: arolygu clefyd chwydu'r gaeaf (norofeirws) yn genedlaethol ac adroddiadau o Achosion Lluosog nad yw'n Annisgwyl a Difrifol o norofeirws a heintiau eraill sy'n gysylltiedig â gofal iechyd (Saesneg yn unig)
4. Dyletswydd gonestrwydd NMC (Ar gael yn: <https://www.nmc.org.uk/standards/guidance/the-professional-duty-of-candour/read-the-professional-duty-of-candour/>)
(Saesneg yn unig)
5. Llawlyfr Atal a Rheoli Heintiau Cenedlaethol (NICPM) (Ar gael yn: [NIPCM – Iechyd Cyhoeddus Cymru \(gig.cymru\)](#)) (Saesneg yn unig)
6. Cynllun ar gyfer Brigiadau o Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy yng Nghymru ('Cynllun Brigiadau o Achosion Cymru'). (2023) Iechyd Cyhoeddus Cymru/Llywodraeth Cymru. (Ar gael yn: phw.nhs.wales/topics/the-communicable-disease-outbreak-plan-for-wales1/) (Saesneg yn unig)
7. Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) (2019) <https://www.llyw.cymru/deddf-iechyd-gofal-cymdeithasol-ansawdd-ac-ymgysylltu-cymru-crynodeb>
8. Canllawiau Gweithio i Wella 2023 [Taflen Gweithio i Wella \(llyw.cymru\)](#)



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

9. Canllawiau statudol Dyletswydd Ansawdd [Y ddyletswydd ansawdd mewn gofal iechyd | LLYW.CYMRU](#)
10. Adroddiadau cenedlaethol am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion: [Digwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion – Yr Uned Gyflawni \(gig.cymru\)](#)



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Atodiadau

Atodiad 1 Enghraifft o Agenda ar gyfer Cyfarfod OCT

Bydd yr agenda cychwynnol ar gyfer cyfarfod cyntaf y brigiad o achosion yn cynnwys:

1. Cytuno ar aelodaeth a chadeirydd/dirprwy gadeirydd.
2. Y polisi brigiad o achosion a chamau gweithredu / cyfrifoldebau unigol.
3. Asesiad cychwynnol o'r brigiad o achosion.
4. Diffiniad(au) achos.
5. Mecanweithiau adrodd.
6. Ymchwilio i'r brigiad o achosion.
7. Mesurau rheoli.
8. Sianeli cyfathrebu.
9. Pa mor aml y cynhelir Cyfarfodydd Brigiad o Achosion.
10. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

6.11.2 Bydd agendâu dilynol yn cynnwys:

- a) Cofnodion y cyfarfod blaenorol
- b) Diweddariad ar y camau gweithredu a gwblhawyd ac sydd i'w cyflawni.
- c) Materion yn codi.
- d) Adroddiad sefyllfa
- e) Adroddiadau cynnydd ymchwiliadau
- f) Adolygu mesurau rheoli ac effeithiolrwydd
- g) Adolygu diffiniad(au) achos
- h) Adolygu aelodaeth/ehangu os oes angen.
- i) Cytuno ar gamau gweithredu ac unigolyn(unigolion) cyfrifol o fewn yr amserlen

Fframwaith ar gyfer rheoli brigiadau neu achosion o heintiau mewn safleoedd gofal iechyd aciwt yng Nghymru F2 – Chwefror 2024.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

j)

Cyfathrebu

k) Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Atodiad 2 - Enghraifft - Meini Prawf Uwchgyfeirio /Asesu Risg

(addaswyd o Fatrics Risg Watt Health Protection Scotland)

Effaith ar:				
Lefel effaith:	Cleifion	Gwasanaethau	Iechyd y Cyhoedd	Pryder y cyhoedd
Mân	Dim ond cymorth ymyriadol mân sydd ei angen o ganlyniad i'r achosion. Dim marwolaethau	Dim effaith, neu dim ond cau ardal (ardaloedd) clinigol yn y tymor byr iawn gydag effaith fach ar unrhyw wasanaeth arall	Na, neu dim ond mân oblygiadau i iechyd y cyhoedd	Ni ragwelir unrhyw or-bryder neu bryder cynyddol sylweddol
Cymedrol	Mae angen cymorth ymyriadol cymedrol ar gleifion, dim marwolaethau o ganlyniad i'r achos lluosog	Cau tymor byr yn cael effaith gymedrol ar rai gwasanaethau, e.e., sawl ward ar gau neu Uned Gofal Dwys wedi'i chau	Goblygiadau cymedrol, h.y., mae risg gymedrol o heintiau a fydd dim ond yn cael effaith gymedrol yn unig ar bobl eraill	Disgwylir mwy o bryder a/neu or-bryder
Mawr	Salwch sy'n peryglu bywyd neu'n	Tarfu ac effaith sylweddol	Goblygiadau sylweddol i iechyd y	Disgwylir braw o fewn rhai
	achosi marwolaeth o ganlyniad i'r achos lluosog mewn un neu fwy o gleifion	ar wasanaethau e.e., cau ysbyty am unrhyw gyfnod o amser	cyhoedd, h.y., mae risg gymedrol neu risg uchel o haint mawr i rywun arall	ardaloedd o'r gymuned ar y lleiaf

Fframwaith ar gyfer rheoli brigiadau neu achosion o heintiau mewn safleoedd gofal iechyd aciwt yng Nghymru F2 – Chwefror 2024.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Asesu:

Pob un yn fân = rheoli fel achos lluosog/brigiad o achosion mewnol, ystyried OCT ffurfiol

3 mân ac 1 cymedrol = rheoli fel achos lluosog/brigiad o achosion mewnol – datgan OCT ffurfiol

Dim mawr a 2-4 cymedrol – datgan OCT ffurfiol, ystyried datgan OCT Mawr

Unrhyw beth mawr* – datgan OCT Mawr a thrafod gyda CCDC/CHP/DPH a ddylid gweithredu Cynllun Brigiadau o Achosion Cymru

***noder** bod hyn yn cynnwys un neu fwy o farwolaethau o ganlyniad i frigiad o achosion neu achos lluosog fel y'i diffinnir, NID o reidrwydd o ganlyniad i un achos o 'organeb rhybudd' neu HCAI



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Atodiad 3 ENGHRAIFFT O RESTR WIRIO BRIGIAD O ACHOSION

ASESIAD CYCHWYNNOL	✓ Dyddiad a blaenlythrennau eich enw	X (neu rhowch Amh.)
1. A oes angen Tîm Rheoli Brigiad i reoli'r achos lluosog?		
2. A yw brigiad o achosion wedi'i ddatgan?		
3. A yw'r gymuned yn chwarae rhan yn yr achos lluosog?		
4. A yw'r achos lluosog yn ymwneud â chlefyd/organeb y dylid hysbysu amdano?		
5. A yw'r digwyddiad yn ymwneud â chynnyrch neu ddyfais feddygol		
6. Os yw'n hysbysadwy, a hysbyswyd y CCDC/HPT?		
7. A yw canlyniadau'r asesiad cychwynnol wedi'u cofnodi?		
CYFATHREBU		
1. Rhoi gwybod i Uwch Reolwyr yr Ymddiriedolaeth/Bwrdd Iechyd		
2. Rhoi gwybod i'r Prif Weithredwr neu'r unigolyn dynodedig		
3. Rhoi gwybod i arweinydd IPC		
4. Ymgynghori â CCDC/CHP/HPT		
5. Rhoi gwybod i'r rheolwr adrannol		
6. Rheolwr gwasanaethau gweithredol yn cymryd rhan (arlwy, glanhau, porthorion, gwastraff, golchi dillad)		

Fframwaith ar gyfer rheoli brigiadau neu achosion o heintiau mewn safleoedd gofal iechyd aciwt yng Nghymru F2 – Chwefror 2024.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

7. Cofnodi'r achos lluosog ar Datix		
8. NRI wedi'i gwblhau a'i gyflwyno i Weithrediaeth y GIG. Ystyried EWN i Lywodraeth Cymru.		

9. Hysbysu'r uwch reolwr ystadau priodol		
10. Nodi enw'r Swyddog Cyfathrebu		
11. Paratoi datganiad rhagweithiol/adweithiol i'r wasg		
12. Ystyried cyfathrebu â phersonél ac adrannau perthnasol		
13. Gwybodaeth briodol yn cael ei darparu i staff		
14. Gwybodaeth briodol yn cael ei darparu i gleifion		
15. Gwybodaeth briodol yn cael ei darparu i berthnasau ac ymwelwyr		
16. Hysbysu'r adran ficrobioleg a neilltuo rhif i'r brigiad o achosion		
17. Cysylltu â thîm HARP ICC (fel y bo'n briodol ac wedi'i gyfarwyddo gan HPT neu ICD neu Arweinydd Atal Heintiau)		
18. Hysbysu cyfleusterau neu wasanaethau Gofal Iechyd eraill fel y bo'n briodol e.e. WAST, gofal cymdeithasol		
19. Cysylltu â chyrrff perthnasol eraill e.e., grwpiau comisiynu, sefydliadau GIG y tu allan i Gymru. Os felly, pa rai?		

AGWEDDAU RHEOLI/SEFYDLIADOL

1. Ystyried yr angen am fwy o ofal clinigol e.e. staff ychwanegol		
2. Angen hyfforddiant Atal a Rheoli Heintiau ychwanegol a defnyddio PPE		

Fframwaith ar gyfer rheoli brigiadau neu achosion o heintiau mewn safleoedd gofal iechyd aciwt yng Nghymru F2 – Chwefror 2024.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

3. Ystyried yr angen am adnoddau glanhau ychwanegol		
4. Ystyried yr angen am fwy o ddillad glân, cyflenwadau di-haint		
5. Ystyried yr angen am fwy o staff clercol		
6. Angen cynyddu nifer y gwelyau		
7. Diffinio cyfleusterau ynysu		
8. Ystyried ward garfan, a diffinio'r defnydd		
9. Gweithdrefnau ynysu a nyrsio wedi'u diffinio		
10. Hysbysu staff nyrsio, meddygol ac eraill am y gweithdrefnau hyn		
11. Diffinio gweithdrefnau domestig/cadw tŷ		
12. Argaeledd cyflenwadau wedi'i asesu		
YMCHWILIAD		
1. Sefydlu diffiniad o'r achos		
2. Creu rhestr linell o achosion		
3. Dechrau ymchwiliad epidemiolegol (atodiad 6)		
4. Adolygu morbidrwydd a marwolaethau sy'n gysylltiedig â brigiad o achosion		
5. Ystyried yr angen am sgrinio microbiolegol a samplu staff a chleifion		
6. Cynnwys Iechyd Galwedigaethol yn y mater		
7. Ystyried yr angen am sgrinio serolegol ar gyfer staff a chleifion		
8. Peirianwyr yn ymwneud â'r mater (os yw'n briodol)		
9. Ystyried yr angen am samplau amgylcheddol		
10. Ystyried yr angen am samplau bwyd		
RHEOLI		

Fframwaith ar gyfer rheoli brigiadau neu achosion o heintiau mewn safleoedd gofal iechyd aciwt yng Nghymru F2 – Chwefror 2024.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

1. Mesurau rheoli wedi'u cytuno a'u dogfennu		
2. Ystyried yr angen am imiwneiddiad gweithredol neu oddefol		
3. Ystyried yr angen am broffylaccsis gwrthfotig		
4. Gweithredu polisiau ynysu		
5. Diffinio'r polisi ar drosglwyddo, rhyddhau a derbyn clefion		
6. Diffinio'r polisi ar symud clefion a staff o fewn yr ysbyty		
7. Diffinio trefniadau ymweld		
8. Adolygu ac asesu gofynion archwilio ym mhob cyfarfod e.e. Hylendid Dwylo, amgylcheddol		
EFFAITH		
1. Adolygu effaith brigiad yr achosion ar wasanaethau		
2. Cyfrifo'r dyddiau gwely a gollwyd		
3. Cyfrifo'r dyddiau staff a gollwyd		
4. Cyfrifo triniaethau wedi'u gohirio		
5. Costau cysylltiedig		
DIWEDD Y BRIGIAD O ACHOSION		
1. Datgan yn ffurfiol ddiwedd y brigiad o achosion		
2. Llunio adroddiad rhagarweiniol		
3. Cynnal cyfarfod o'r OCT i ystyried y gwersi a ddysgwyd		
4. Archwilio'r ymateb i frigiad yr achosion yn erbyn canllawiau		
5. Dosbarthu adroddiad terfynol yn cynnwys gwersi a ddysgwyd ac argymhellion a gasglwyd i'r Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth		

Fframwaith ar gyfer rheoli brigiadau neu achosion o heintiau mewn safleoedd gofal iechyd aciwt yng Nghymru F2 – Chwefror 2024.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

6. Cyflwyno adroddiad terfynol ac archwiliad i Weithrediaeth y GIG		
---	--	--



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Atodiad 4 Templed o Adroddiad Brigiad o Achosion

1. Crynodeb Gweithredol

2. Cyflwyniad/Cefndir: Naratif byr o amgylchiadau'r brigiad o achosion

3.Ymchwiliad:

1. Diffiniad o Achos
2. Epidemiolegol
3. Microbiolegol
4. Amgylcheddol

11. Canlyniadau:

1. Epidemiolegol
2. Microbiolegol
3. Amgylcheddol

12. Mesurau Rheoli

6. Canlyniad y Dadansoddiad o Wraidd y Broblem/Adolygiad ar ôl haint (lle y'i cynhaliwyd)

1. Casgliadau/Argymhellion:

1. datganiad ar achosion y brigiad o achosion, gan gynnwys unrhyw fethiannau mewn gweithdrefnau neu achosion o dorri deddfwriaeth
2. sylwadau ar y modd y cynhaliwyd yr ymchwiliad a'r gwersi a ddysgwyd.
3. sylwadau ar unrhyw anghenion hyfforddi a nodwyd gan yr ymchwiliad
4. perfformiad yn erbyn safonau y cytunwyd arnynt

2. Atodiadau:

1. Cofnodion cyfarfodydd OCT
2. Canlyniadau dadansoddiadau ystadegol
3. Adroddiad Epidemiolegol

Fframwaith ar gyfer rheoli brigiadau neu achosion o heintiau mewn safleoedd gofal iechyd aciwt yng Nghymru F2 – Chwefror 2024.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

4. Datganiadau i'r cyfryngau
5. Gwybodaeth a ddarperir i gleifion/ymwelwyr etc.
6. Costau amcangyfrifedig ac effaith (*dewisol*):

Staffio

Offer meddygol/llawfeddygol

Adnoddau glanhau ychwanegol

Diwrnodau gwely a gollwyd.

Fferyllol

Oedi gyda gwasanaethau

Ychwanegol e.e., dadheintio, profi samplau, gwybodaeth i gleifion, amser

Marwolaethau/morbidrwydd cysylltiedig neu effaith ar lesiant staff, effaith ar enw da, amcangyfrif o gostau.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Atodiad 5 – Hierarchaeth Rheolaethau

(cymerwyd o [Hierarchy of Controls](#) | [NIOSH](#) | [CDC](#))



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Atodiad 6 – Offeryn Rhoi Gwybod am Frigiad o Achosion

2023 -	
Offeryn Rhoi Gwybod am Frigiad o Achosion – Y Posibilrwydd o Draws-gyflenwi yn y Rhwydwaith Epidemioleg Gofal Iechyd	
Awdur: Hannah Jones	
Dyddiad: 19/02/2024	Fersiwn: f1
Statws: Terfynol	
Cynulleidfa Darged: Epidemiolegwyr Gofal Iechyd Iechyd Cyhoeddus Cymru, Epidemiolegwyr Maes Iechyd Cyhoeddus Cymru, Epidemiolegwyr Ymgynghorol, Uwch Wyddonydd Iechyd Cyhoeddus Cymru, Arweinwyr Atal a Rheoli Heintiau Iechyd Cyhoeddus Cymru, Arweinwyr Atal a Rheoli Heintiau Byrddau Iechyd, Timau Atal a Rheoli Heintiau Byrddau Iechyd, Ymgynghorwyr mewn Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy / Ymgynghorwyr mewn Diogelu Iechyd	
Pwrpas a Chrynodeb o'r Ddogfen: Amlinellu pwrpas a chwmpas yr offeryn rhoi gwybod am frigiad o achosion ar gyfer traws-gyflenwi, i gefnogi ymchwiliadau i frigiadau o achosion ar gyfer byrddau iechyd lleol o fewn y Rhwydwaith Epidemioleg Gofal Iechyd.	
Diweddariadau: HJ: 02/08/2023 – Drafft wedi'i greu. HJ: 19/02/2024 – Diweddaru aelodau tîm y rhwydwaith i adlewyrchu newidiadau yn y rhwydwaith.	

Fframwaith ar gyfer rheoli brigiadau neu achosion o heintiau mewn safleoedd gofal iechyd aciwt yng Nghymru F2 – Chwefror 2024.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Cefndir

Mae'r Rhwydwaith Epidemioleg Gofal Iechyd (HCEN), fel rhan o'r Rhaglen Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd ac Ymwrthedd Gwrthficrobaidd (HARP) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn darparu cymorth epidemiolegol i fyrdau iechyd lleol yng Nghymru, er mwyn lleihau baich heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd ac ymwrthedd i wrthfotigau. Mae rôl y Rhwydwaith Epidemioleg Gofal Iechyd hefyd yn cynnwys cymorth epidemiolegol yn ystod brigadau o achosion o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Mae gan bob bwrdd iechyd lleol Epidemiolegydd Gofal Iechyd sy'n gyfrifol am yr ardal honno (heblaw Bwrdd Iechyd Addysgu Powys). Mae'r rhwydwaith yn cynnwys yr aelodau tîm canlynol, dan arweiniad Mari Morgan, Uwch Wyddonydd ac Arweinydd Rhwydwaith Epidemioleg Gofal Iechyd:

Bwrdd Iechyd Lleol	Enw (au) Cyswllt	E-bost
BIP Aneurin Bevan	Ember Hilvers	ember.hilvers@wales.nhs.uk
BIP Betsi Cadwaladr	Craig Hogg	craig.hogg@wales.nhs.uk
BIP Caerdydd a'r Fro	Phillip Butterick	phillip.butterick@wales.nhs.uk
BIP Cwm Taf Morgannwg	Israa Mohammed	israa.mohammed@wales.nhs.uk
BIP Hywel Dda	Hannah Jones	hannah.jones42@wales.nhs.uk
BIA Powys		phwhcepidemiology@wales.nhs.uk
BIP Bae Abertawe	Matthew Rumble	matthew.rumble2@wales.nhs.uk

Nodwyd gan y Rhwydwaith Epidemioleg Gofal Iechyd ei bod yn anodd traws-gyflenwi cyfrifoldebau ar gyfer rhoi cymorth yn ystod adegau o frigiadau o achosion yn ystod cyfnodau o absenoldeb neu salwch, oherwydd problemau capasiti a ffyrdd amrywiol o gynhyrchu cymorth epidemiolegol ar gyfer brigadau o achosion. Felly, mae Offeryn Rhoi Gwybod am Frigiad o Achosion wedi'i ddatblygu ar gyfer y rhwydwaith er mwyn hwyluso'r broses o roi gwybod i gefnogi materion capasiti yn ystod traws-gyflenwi, ac i safoni allbynnau a gynhyrchir ar gyfer cyfarfodydd tîm rheoli brigiad (OCT). Mae'r ddogfen hon yn diffinio'r allbynnau y gall byrddau iechyd eu heithrio o'r rhwydwaith pan fydd aelod arall o'r tîm yn cyflenwi er mwyn cefnogi ymchwiliadau i frigiad o achosion. Framwaith ar gyfer rheoli brigadau neu achosion o heintiau mewn safleoedd gofal iechyd aciwt yng Nghymru F2 – Chwefror 2024.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Cwmpas

Bydd yr adroddiad a gynhrychir gan yr Offeryn Rhoi Gwybod am Frigiad o Achosion yn darparu gwybodaeth epidemiolegol i gyfarfodydd OCT i gefnogi gydag ymchwiliadau i frigiadau o achosion. Gall y bwrdd iechyd lleol sy'n cael gwasanaeth cyflenwi gan Epidemiolegydd Gofal Iechyd arall ddisgwyl cael adroddiad sy'n cynnwys tabl cryno (cyfanswm yr achosion yn ôl gwryw/benyw, oedran, statws cael haint mewn gofal iechyd a nifer sydd wedi marw), cromlin epi o achosion yn seiliedig ar ward, cromlin epi o achosion yn seiliedig ar statws cael haint mewn gofal iechyd, siart llinell amser o glystyrau heintiau (TICL), ac atodiad (gan gynnwys rhestr linell ddienw o achosion a diffiniadau o achosion). Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfodydd OCT gan yr Epidemiolegydd Gofal Iechyd sy'n cyflenwi.